**NEWPORT CITY COUNCIL**

**Hysbysiad Statudol - Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

Sarah Morgan,
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd,
Canolfan Ddinesig
Casnewydd,
NP20 4UR

Hysbysir trwy hyn, yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Casnewydd, wedi ymgynghori â'r bobl angenrheidiol, yn cynnig cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Parc Tredegar o 420 i 525 o leoedd o fis Medi 2024.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk/schoolreorganisation.

Mae Ysgol Gynradd Parc Tredegar yn ysgol gymunedol Saesneg a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer disgyblion 3-11 oed, yn Partridge Way, Dyffryn, Casnewydd, NP10 8WP. Nifer mesuredig yr ysgol ar gyfer y dosbarth derbyn yw 420 a'r nifer derbyn cyhoeddedig (NDC) ar gyfer y dosbarth derbyn i flwyddyn 6 yw 60. Mae 80 o leoedd meithrin. Ar hyn o bryd, nifer y disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol yw 389 a 45 yn y dosbarth meithrin (Cyfrifiad Hydref 2023). Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig cynyddu'r nifer derbyn ar gyfer y grŵp dosbarth derbyn i 75 o fis Medi 2024 ac ar gyfer pob blwyddyn ddilynol wedi hynny hyd nes y bydd capasiti cyffredinol yr ysgol yn cynyddu i 525 ym mis Medi 2030.

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Parc Tredegar, a bydd ceisiadau am dderbyniadau yn parhau i gael eu hasesu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor.

Mae gan y Cyngor bolisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol sy'n cynnig trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y ddarpariaeth hon. Mae mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r polisi hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

**Cyfnod Gwrthwynebu**

O fewn cyfnod o 28 niwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 17 Mawrth 2024 caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu dros e-bost.

Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw'r Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR. Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:

Sarah Morgan

Prif Swyddog Addysg
Ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR
Dyddiad: 19 Chwefror 2024